

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC: PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL - 19 HYDREF 2017**

**ADRODDIAD GAN: SWYDDOG CYMORTH BUSNES DEMOCRATAIDD A
CHORFFORAETHOL**

PRESENNOL: CYNGHORYDD S.C. THOMAS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr D. Bevan
S. Healy
J. Millard
M. Moore
J. P. Morgan
K. Pritchard
T. Smith
B. Summers
J. Wilkins

GYDA: Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Gwasanaethau Plant
Ymgynghorydd Craffu

A: Bobby Bolt – Cyfarwyddwr, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Hannah Caple – Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

<u>EITEM</u>	<u>PWNC</u>	<u>GWEITHREDU</u>
-----	<u>TREFN YR AGENDA</u> Cytunodd y Cadeirydd y caiff eitem Rhif 6 ei hystyried yn gyntaf ar yr agenda.	
6	<u>CANOLFAN IECHYD A LLESIANT TREDEGAR</u> Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad a chyflwyniad Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyswllt	

Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan sy'n rhoi gwybodaeth ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud â datblygu Canolfan Iechyd a Llesiant yn Nhredegar.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyswllt Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr adroddiad ac amlinellu'r cefndir a sefyllfa bresennol y Ganolfan Iechyd a Llesiant.

Yn dilyn cwestiwn os cynhelir unrhyw ymgysylltu gyda'r gymuned leol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyswllt y bydd Swyddog yn cynnal digwyddiadau addas o fewn ardal Tredegar gydag un yn cael ei drefnu gyda grwpiau lleol ym mis Tachwedd.

Teimlai Aelod na fyddai'n gynaliadwy chwalu ac ailgodi'r adeilad a dywedodd y Cyfarwyddwr Cyswllt fod llawer o waith yn cael ei wneud i ddatblygu model a bydd gwaith yn parhau cyn gynted ag y cyflwynir y cynlluniau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd a bod ganddynt berthynas waith dda iawn. Esboniodd fod y Ganolfan Iechyd a Llesiant yn bendant iawn am gapasiti meddygon teulu yn Nhredegar a gweithio integredig a sut y bydd y ganolfan yn cefnogi'r gymuned er gwell.

Holodd Aelod am y sefyllfa bresennol o ddenu gwasanaethau i'r Ganolfan megis deintydd, fferyllfa ac yn y blaen. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyswllt at y cyflwyniad a dywedodd mai'r sleid gyda'r teitl Darpariaeth Gwasanaeth oedd y gwasanaethau oedd eisoes wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth yn y ganolfan, a deallir fod y deintydd yn Stryd y Castell, Tredegar wedi mynegi diddordeb mewn symud i'r Ganolfan wrth ehangu eu busnes.

Croesawodd Aelod y cyfleusterau anadlol yn y Ganolfan ond mynegodd bryder am yr uned cyffuriau ac alcohol a sut y caiff ei reoli. Dywedodd y Cadeirydd fod Prosiect Kaleidoscope wedi bod yn ased gwerthfawr i'r gymuned yn y gorffennol, yn ogystal â Phrosiect GAP, ac yn dilyn y cyntaf o'r cyfarfodydd Pwyllgor Monitro 4 misol, roedd y cyfleuster yn rhedeg i lefel uchel ac ni fu angen pellach i gwrdd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y deallai y byddai swyddog o Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn y ganolfan un diwrnod yr wythnos i roi cyngor a'i bod yn annhebyg y byddai'r ganolfan yn dosbarthu methadon gan fod safle yn

Nhredegar eisoes sy'n rhoi'r gwasanaeth hwnnw ond cynhelir trafodaeth am hyn.

Yn dilyn cwestiwn os byddai'r cyfleuster cyffuriau ac alcohol yn llwyr ar gyfer preswylwyr Tredegar, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyswllt y byddai'n ymchwilio'r wybodaeth yma.

Yn dilyn cwestiwn am amserlenni ar gyfer y ganolfan, nodwyd y byddai'r Achos Busnes yn cael ei orffen yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac y cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd lechyd wedyn a'i gytuno'n derfynol gan Lywodraeth Cymru. Yna byddai trafodaethau'n symud ymlaen gyda'r penseiri ac amcangyfrifir y byddai'r adeilad yn barod i'w ddefnyddio mewn 2 flynedd. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyswllt nad oedd yr adeilad wedi ei restru ond ei fod mewn ardal cadwraeth ac y byddai'r adeilad newydd yn estyniad i'r adeilad presennol ac nid yn ailadeiladu llwyr.

PENDERFYNWYD argymell derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymeradwyo'r Opsiwn 1 a ffafrir, sef cefnogi mewn egwyddor datblygu model lechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn Nhredegar ac argymell hynny i'r Pwyllgor Gweithredol.

Bobby Bolt

1 **CYFIEITHU AR Y PRYD**

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2 **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

Cynghorwyr: J. Holt, G. A. Davies, K. Hayden T. Sharrem

Cynghorydd John Mason – Aelod Gweithredol

3 **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**

Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant neu oddefebau.

4 **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017.

PENDERFYNWYD cadarnhau'r Cofnodion.

5 **DALEN WEITHREDU**

Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Medi 2017, yn cynnwys:-

Cludiant gyda Chymorth, Gwasanaethau Oedolion

Cyfeiriodd Aelod at Ymateb y Ddalen Weithredu yn dilyn trafodaethau diweddar gyda Merthyr a gofynnodd beth oedd yr heriau sy'n wynebu staff ym Merthyr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth aelodau y bu'r gwasanaeth ym Merthyr yn rhedeg am gyfnod hir a bod staff yn wynebu newid diwylliannol oedd yn dal i brofi'n her.

Cyfeiriodd Aelod arall ar y graddau Strwythur Staffio Trafnidiaeth Gwasanaeth Cymdeithasol a gofyn pam nad oedd y golofn Gyrrwr yn dangos graddau cyflog a gofynnodd am gynnwys y rhain yn ogystal â chost gyffredinol y strwythur staffio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddent yn dod â'r wybodaeth hon i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.

**Damien
McCann**

7 **DIWEDDARIAD AR Y BOBLOGAETH PLANT SY'N DERBYN GOFAL YM MLAENAU GWENT A GWEITHREDU STRATEGAETH GOSTYNGIAD DIOGEL YN NIFER Y PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant yn rhoi gwybodaeth ar nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt gweithredu'r Strategaeth Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

Ar wahoddiad y Cadeirydd siaradodd Pennaeth Gwasanaethau Plant am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo ynghyd ag Atodiad 2 a Gostyngiad Diogel yn Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal 2017-2020.

- Amcan 1 - Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd
- Amcan 2 - Rheoli'r risg yn hyderus a rhoi cefnogaeth ar 'Ymyl Gofal'
- Amcan 3 - Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o leoliadau ansawdd uchel

Cyfeiriodd Aelod at Sesiwn Wybodaeth a gynhaliwyd lle soniwyd am ddyfarniadau llys yn ogystal â phlant yn cael eu rhoi gyda mam-guod a thad-cuod, a gofynnodd os y caiff y plant hyn eu cyfrif fel 'plant sy'n derbyn gofal'. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant mai dyna'r achos a'r bwriad oedd i grŵp o reolwyr gwrdd i ymchwilio'r gyfraith achos a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn herio hyn a symud ymaith o ddull gweithredu unffurf.

Tîm Ymyl Gofal

Gofynnwyd os sicrhawyd cyllid yng nghyswllt y Tîm Ymyl Gofal ac esboniodd y Swyddog fod y gyfarwyddiaeth wedi derbyn grant o £147,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y tîm, ond gan fod cost y tîm yn £343,000 roedd hyn yn golygu diffyg. Fodd bynnag roedd Gwasanaeth Cefnogaeth Teulu Integredig Gwent-gyfan yr oedd Blaenau Gwent yn dyrannu £175,000 iddo bob blwyddyn ond byddai'r swm hwn yn gostwng o Ebrill 2018 ymlaen a dim ond £50,000 y byddai Blaenau Gwent yn ei neilltuo. Byddai hyn yn awtomatig yn darparu £120,000 ar gyfer y Tîm Ymyl Gofal, fodd bynnag byddai diffyg o hyd ac roedd y Gyfarwyddiaeth yn ystyried sut y gallai cyllidebau presennol gwrdd â'r diffyg a rhoddir adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol.

Nodwyd yr hysbysebwyd swyddi ar gyfer y Tîm Ymyl Gofal yn allanol yn ogystal ag yn fewnol a gofynnodd Aelod beth fyddai'r effaith ar yr Adran pe byddai staff mewnol yn llwyddiannus yn cael swydd o fewn y Tîm Ymyl Gofal ac a fyddai'r swyddi hynny wedyn yn cael eu hysbysebu. Dywedodd y Swyddog y cynhaliwyd proses recriwtio ar gyfer y Tîm Ymyl Gofal ac mai'r bwriad yw y byddai ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael eu hystyried ar gyfer y swyddi gwag o fewn yr Adran i osgoi mynd drwy'r broses recriwtio eto.

Gofynnodd Aelod os yw'n hysbys faint o geisiadau a gafwyd gan breswylwyr Blaenau Gwent a dywedodd y Swyddog y bu cyfuniad o ymgeiswyr o Flaenau Gwent ac ardaloedd eraill.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y byddai enw 'Ymyl Gofal' yn newid ac mai'r Tîm newydd fyddai'n penderfynu ar yr enw newydd.

Asiantaeth Faethu Annibynnol

Yn dilyn cwestiwn am gost maethu annibynnol, nodwyd ei bod yn costio'n sylweddol fwy i leoli plant gyda gofalwyr maeth annibynnol nag i leoli plant mewn gofal maeth drwy'r ddarpariaeth ym Mlaenau Gwent.

Gofynnodd Aelod sut y byddai Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau cadw perthynas waith dda gyda gofalwyr maeth a staff. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd i Aelodau fod y gofalwyr maeth yn deyrngar iawn i Flaenau Gwent ac esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Blaenau Gwent yn denu gofalwyr maeth annibynnol gan fod y Gyfarwyddiaeth yn rhoi mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i ofalwyr maeth.

Gofynnodd Aelod am wybod y broses o bwy sy'n penderfynu lle caiff plentyn ei leoli ac esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant y rhoddwyd ystyriaeth yn gyntaf i ofalwyr Blaenau Gwent ei hun a chanfuwyd nad oedd teulu i gymryd gofal yna gofynnir i Awdurdodau Lleol eraill. Dim ond os nad oedd darpariaethau mewn awdurdodau eraill y byddai gofalwyr maeth annibynnol yn cael eu hystyried.

Cyfeiriwyd at y llety yn Nhŷ Parc, Tredegar a nodwyd mai dim ond ar gyfer llety argyfwng yr oedd hyn.

Rhoddwyd cadarnhad wedyn y darperir Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ar gyfer Aelodau ar faethu.

PENDERFYNWYD argymhell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chefnogi Opsiwn 1 sef:

- Rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth yn yr adroddiad a sylwadau ar y meysydd oedd angen mwy o eglurder, a
- Materion yn ymwneud â'r adroddiad yn cael eu dynodi fel sy'n briodol ar gyfer atgyfeirio i'r Pwyllgor Gweithredol.

**Tanya
Evans**

DIWEDDARIAD BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL

Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i roi diweddariad ar waith a phenderfyniadau dros y 6 mis diwethaf gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau perthnasol ynddo:

- Cefndir a chyd-destun
- Goblygiadau risg
- Goblygiadau ariannol
- Staffio
- Opsiynau i'w hystyried

Cefndir a chyd-destun

Cyfeiriodd Aelod at y cefndir a'r cyd-destun a gofynnodd sut oedd y trefniadau partneriaeth yn cael eu datblygu yng nghyswllt y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol nad oedd y Bwrdd wedi cyfarfod yn aml oherwydd yr etholiadau ym mis Mai 2017 ac ers hynny y bu Aelodau newydd a Chyfarwyddwyr ar y Bwrdd. Cydnabuwyd fod angen Diwrnod Datblygu ar gyfer aelodau Bwrdd i sefydlu blaenoriaethau a ffocws ar symud ymlaen.

Goblygiadau ariannol

Cyfeiriodd Aelod at y £400,000 o Grant Cyflawni Trawsnewid a holodd os byddai Blaenau Gwent yn derbyn llai o gyllid oherwydd y toriadau ariannol parhaus. Esboniodd y Swyddog fod y swm a dderbyniwyd yn seiliedig ar boblogaeth, a fyddai ar gyfer Blaenau Gwent yn gyfwerth â thua £30,000. Fodd bynnag gallai fod arbedion posibl pe cyfunid y 5 awdurdod.

PENDERFYNWYD argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef:

- Cefnogi penderfyniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer Opsiwn 2 ynghyd a 3 a 4 i weithredu Rhan 9 i sefydlu cyllid comisiynu a chronnus integredig mewn camau (manylyr ym mharagraff 5.1) i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor

Gweithredol.

Gadawodd y Cynghorydd Derrick Bevan y cyfarfod ar y pwynt hwn.

9

TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi diweddariad ar nifer yr atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a dderbyniwyd yn ystod 2016-2017.

Ar wahoddiad y Cadeirydd cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau allweddol yno:

- Cefndir a chyd-destun
- Newidiadau allweddol
- Tystiolaeth perfformiad
- Goblygiadau risg
- Goblygiadau ariannol
- Staffio

PENDERFYNWYD argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef:

- Craffu'r adroddiad ac argymhell bod y Pwyllgor Gweithredol yn cytuno ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Gyfarwyddiaeth i ateb y galw a roddir ar y Tîm fel canlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys a pharhau i ddefnyddio'r trefniadau hyn nes bod y gyfraith newid ac y caiff y sefyllfa ei hadolygu bryd hynny.

Gadawodd y Cynghorydd J. Millard y cyfarfod ar y pwynt hwn.

10

EITEMAU AGENDA AR GYFER CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cytunwyd gohirio Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dulliau Amgen o Ddarparu Gwasanaeth i'w gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol i'w gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar ddatblygu'r Polisi Diogelu

Corfforaethol a nododd gan nad oedd y Cydbwyllgor Craffu Diogelu yn cwrdd tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf, y cytunwyd gyda'r ddau Gadeirydd bod yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a chyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.

Estynnodd Aelod ei longyfarchiadau ar y Sesiwn Wybodaeth dda a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod i gytuno ar yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 30 Tachwedd 2017, gyda chynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol fel sy'n dilyn:-

- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Sefyllfa ariannol diwedd blwyddyn Gwasanaethau Cymdeithasol
- Adroddiad chwarterol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol - Chwarter 1 a 2
- Adroddiad Perfformiad SEWAS.